

## **Gwybodaeth i Berthnasau ac Ymwelwyr**

### **Achosion o Haint Feirol sy'n achosi Gastro-enteritis**

Rydym wedi cynhyrchu'r daflen hon i roi gwybod i chi am y sefyllfa bresennol ar y ward hon.

Mae rhai cleifion ar y ward wedi datblygu symptomau dolor rhydd a/neu chwydu. Mae'n debyg mai haint feirysol sy'n achosi gastro-enteritis cyffredin sy'n gyfrifol am y rhain. Mae samplau bellach wedi'u hanfon i'r labordy i sicrhau nad yw'n ganlyniad i unrhyw achos arall.

#### **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i helpu i atal heintiau feirysol rhag lledaenu?**

Mewn amgylchedd ward gall gastro-enteritis feirysol lledaenu'n hawdd i eraill oherwydd bod cleifion yn cael eu nyrsio gyda'i gilydd yn agos at ei gilydd ac yn rhannu'r un cyfleusterau ystafell ymolchi.

Er mwyn helpu i atal y feirws rhag lledaenu i gleifion neu wardiau eraill mae'n rhaid i ni gymryd nifer o fesurau rheoli megis:-

- Ynysu'r claf yr effeithir arno mewn ciwbicl.
- Nyrsio ar gleifion wedi eu heintio gyda'i gilydd.
- Cau un neu fwy o ystafelloedd.
- Cau un neu fwy o wardiau.
- Cyfyngu cleifion wedi'u heintio rhag mynd i adrannau eraill e.e. ffisiotherapi, oni bai ei bod yn fater o frys.
- Oedi rhyddhau cleifion wedi eu heintio i ysbytai eraill, cartrefi nyrsio neu gartrefi breswyl.

Bydd y mesurau uchod yn dibynnu ar amgylchiadau megis nifer y cleifion/staff sydd wedi eu heintio, difrifoldeb y salwch a lleoliad y cleifion sydd wedi eu heintio. Bydd y sefyllfa wedi'i thrafod gydag uwch nyrsys, meddygon a rheolwyr a'r Tîm Atal Heintiau arbenigol.

Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd drwy gydol pob dydd a gall y mesurau newid yn unol â hynny.

Gall y symptomau fod yn annymunol dros ben, ond anaml y byddant yn ddifrifol, fodd bynnag, gall pobl wael, bregus neu oedrannus iawn ddioddef cymhlethdodau. Nid oes gwrthfotig sy'n effeithiol yn erbyn gastro-enteritis feirysol. Mae'r driniaeth yn cynnwys monitro cleifion â symptomau'n agos a newid hylif yn ôl yr angen er mwyn sicrhau nad ydynt yn dadhydradu.

Mae cleifion fel arfer yn gwella ymhen rhwng 3 a 4 diwrnod.

### **Beth gallaf i ei wneud i helpu?**

Gallwch helpu mewn nifer o ffyrdd:

- Golchwch eich dwylo cyn ac ar ôl ymweld â'r claf.
- Os oes angen neu os ydych yn dewis gwneud hynny, gwisgwch y ffedog amddiffynnol a'r menig yn ôl cais/awgrymiadau'r staff nyrsio. (Byddant yn eich helpu i'w gwisgo ac yn dangos i chi ble dylech eu taflu).
- Anogwch berthnasau bregus/mewn oed i beidio ag ymweld yn ystod y cyfnod hwn. Byddem hefyd yn eich cynghori i beidio â dod â phlant i'r ward.
- Os oes gennych chi neu'ch teulu unrhyw ddolur rhydd a / neu rydych yn chwydu, peidiwch ag ymweld â'r ward nes bod y symptomau wedi mynd ac yna arhoswch 48 awr arall. (Er eich bod yn teimlo'n well – mae'n bosibl y gallwch barhau i ledaenu'r salwch am y ddau ddiwrnod hyn).
- Holwch staff y ward os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall neu os oes rhywbeth rydych yn poeni amdano.

### **O ble caf i ragor o wybodaeth?**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y **Tîm Atal Heintiau**. Os hoffech weld unrhyw un ohonynt, gofynnwch i staff y ward gysylltu â nhw.

### **Y TÎM ATAL HEINTIAU**

**Ysbyty Nevill Hall**

**01873 732048**

**Ysbyty Brenhinol Gwent**

**01633 238101**

**Ysbytai Cymunedol yn cynnwys: Ysbyty Ystrad Fawr  
ac Ysbyty Aneurin Bevan**

**07903 324603**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English".**